**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCLA@assembly.wales

04 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ynghylch y datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C a'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, ac fel y cadarnhawyd yn llythyr y Prif Weinidog atoch dyddiedig 11 Mawrth, mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Cymru a bu cyfnewid gohebiaeth Gweinidogol ynghylch Gorchymyn adran 109. Mae'r Llywodraethau yn ystyried sut y gall swyddogaethau cydredol sydd wedi eu creu gan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU ill dau gael ei diddymu gan y Cynulliad heb fod angen cydsyniad Gweinidogion y DU. Mae'r ddwy Lywodraeth yn cytuno bod angen ystyried y cyfyngiadau presennol sy'n gwneud cydsyniad o'r fath yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gweithio mor ddidrafferth â phosibl ar ôl Brexit, gyda'r nod o gynnwys newidiadau mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sydd ar fin cael ei wneud o dan adran 109. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am hynt y trafodaethau hynny.

Gallaf eich sicrhau chi bod i 'gallai' a 'byddai' yr un ystyr i bob pwrpas yn y cyd-destun y maent yn ymddangos yn natganiadau ysgrifenedig RhS30C.Yn amlwg, ni fyddai unrhyw gynnydd neu leihad o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael effaith ymarferol tan y pwynt y byddai'r Cynulliad yn ceisio deddfu. Gan hynny, mae'r adran hon o'r datganiadau RhS30C wedi ei drafftio mewn cyd-destun damcaniaethol lle y mae'r Cynulliad yn ceisio deddfu ynghylch y swyddogaethau hynny. Wrth ddrafftio datganiadau ysgrifenedig, mae rhai swyddogion wedi mabwysiadu'r safbwynt damcaniaethol bod y Cynulliad yn ystyried y ddeddfwriaeth ddamcaniaethol hon yn y dyfodol agos iawn, lle **byddai** angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (neu ymgynghori ag ef, yn ôl y digwydd,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fel y “Gweinidog priodol”[1]). Mae swyddogion eraill wedi ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Swyddfa Cymru wrth fynegi'r effaith ar allu'r Cynulliad i ddeddfu, lle **gallai** bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol (neu ymgynghori ag ef, yn ôl y digwydd) *pe bai'r* bil damcaniaethol hwnnw i gael ei osod i'w ystyried cyn cwblhau'r gwaith hwn sy'n mynd rhagddo.

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r defnydd o'r gair “gallai” a nodir yn eich llythyr yn adlewyrchu diffyg eglurder o ran pa un a yw'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn swyddogaethau Gweinidogion y Goron sydd o fewn paragraff 11(2) o Atodlen 7B. Mae ond yn nodi bod pa un a fyddai Bil gan y Cynulliad sy'n ceisio dileu neu newid y swyddogaethau hyn yn y dyfodol yn golygu ei bod yn ofynnol ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau â Swyddfa Cymru.

Hyderaf y bydd hyn yn darparu'r eglurder yr ydych chi wedi gofyn amdano.

Yn gywir



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

[1]Mae i “Gweinidog priodol” yr ystyr a roddir i “appropriate Minister” ym mharagraff 8(5) o Atodlen 7B